

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

6 Awst 2021

Annwyl Llŷr,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Amgylchedd Llywodraeth y DU. Hoffwn ymddiheuro am beidio â darparu'r wybodaeth erbyn y dyddiad a bennwyd gennych.

Mae'n bleser gennyf ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani yn eich llythyr.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink that reads "Julie James". The signature is written in a cursive, flowing style.

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pwerau cydredol plws

1. A allwch roi esboniad manwl o'r amgylchiadau lle credwch y byddai'n briodol i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio defnyddio'r pwerau cydredol plws?

Mewn achosion penodol, gall y pwerau a gymerir gael eu harfer mewn perthynas â Chymru gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Bernir bod hynny'n rhesymol os gweithredu yn yr un modd ledled y DU fyddai'n briodol neu'n fwyaf buddiol.

Cymalau 50-51 (49-50 gynt): Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr

Cymalau 52-54 (51-53 gynt): Gwybodaeth am Effeithlonrwydd Adnoddau a Chynlluniau Dychwelyd Ernes

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i gyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a Chynlluniau Dychwelyd Ernes ar ystod eang o eitemau. Bydd yr eitemau hynny'n cael eu hystyried fesul achos ac ar y cyd â'r gwledydd eraill. Bydd y camau deddfwriaethol a gymerir yn dibynnu ar ofynion pob cynllun. O'r herwydd, mae angen cynnal yr hyblygrwydd naill ai i:

- wneud ein rheoliadau ein hunain yng Nghymru ar gyfer cynllun pwrpasol i Gymru;
- creu deddfwriaeth sy'n adlewyrchu deddfwriaeth y gwledydd eraill pan fo angen cynlluniau cyffredin ym mhob gwlad, ond mae'n bosibl y byddwn am gadw'r gallu i ddiwygio rhai agweddau ar gyfer Cymru yn y dyfodol neu;
- ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu ar ein rhan, pe bai'n briodol cyflwyno cynllun ar gyfer y DU gyfan.

Mae'r pwerau a gymerir o dan y cymalau hyn, ynghyd â'r eithriad i atodlen 7b i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn sicrhau'r lefel ofynnol o hyblygrwydd.

Er ein bod yn bwrw ymlaen â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio ar lefel y DU gyfan, ac â Chynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd ar lefel Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, rydym yn bwriadu gosod rheoliadau penodol i Gymru yn y Senedd er mwyn dod â'r cyfundrefnau hynny i rym. Mae'r gwaith hwnnw'n cael ei gydgyssylltu â'r gwaith sy'n mynd rhagddo yng ngwledydd eraill y DU, a hynny er mwyn i gwmpas y darpariaethau fod mor eang â phosibl. Bydd Llywodraeth yr Alban (ar gyfer yr Alban) a Llywodraeth y DU (ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon) yn cyflwyno eu his-ddeddfwriaeth eu hunain ar yr un pryd fel y bo modd rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ledled y DU ar yr un pryd. Drwy weithredu fel hyn, bydd modd cadw atebolrwydd Gweinidogion Cymru, sicrhau bod rheoliadau yn eu lle yng Nghymru a bod y Senedd yn cael cyfle i graffu ar fanylion y diwygiadau hyn. Mae hynny'n bwysig.

Mae'r ffordd y penderfynwyd gweithredu mewn perthynas â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr am ddeunydd pacio a Chynlluniau Dychwelyd Ernes yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cadw rhywfaint o atebolrwydd gweinidogol yng Nghymru a gosod is-ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru, a bod yn bragmataidd ynglŷn â defnyddio'r adnoddau sydd gennym ac am sut y gall gweithio ledled y DU sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i Gymru.

Cymal 85 (gynt 83) Dŵr – nod y cymal hwn yw adlewyrchu sut yr arferid y pwerau yn y gorffennol. Mae'r cymalau hyn yn ceisio mynd i'r afael â bwloch mewn perthynas â sylweddau â blaenoriaeth a adawyd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Câi'r pwerau hynny eu harfer gynt o dan adran 2(2) ond caent eu gweithredu hefyd drwy Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Mae pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer ar gyfer ardaloedd basnau afonydd sy'n gyfan gwbl yng Nghymru

ond yn achos y ddwy ardal basn afon sy'n croesi'r ffin (afon Dyfrdwy ac afon Hafren), arferir y pwerau hynny ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cymal 136 (133 gynt) REACH – mae'n adfer y sefyllfa a fodolai gynt ar gyfer gwneud neu ddiwygio trefniadau gorfodi domestig ar gyfer cemegion (maes polisi sydd wedi'i ddatganoli'n rhannol ac wedi'i gadw'n ôl yn rhannol). Bryd hynny, roedd gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd (ECA) 1972 ac roeddent wedi cael eu dynodi i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno, neu gallent roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud hynny. Yn y maes polisi hwn, roeddent, fel arfer, yn ffafrio'r opsiwn o geisio cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Ni fyddai'r Senedd wedi craffu yn y gorffennol ar reoliadau o'r fath a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2. A allwch nodi'r meini prawf y byddai Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylid cydsynio i'r defnydd o bwerau cydredol plws?

Manylir yn Atodiad A ar y meini prawf y byddai Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylent roi cydsyniad i ddefnyddio pwerau cydredol.

3. Dywedoch wrthym y byddai'r Senedd yn cael cyfle i roi barn ynghylch a ddylai Gweinidogion Cymru gydsynio i'r defnydd o bwerau cydredol plws. Nid oes proses ffurfiol ar waith ar hyn o bryd i hwyluso hyn. Sut rydych yn rhagweld y bydd y broses hon yn gweithio'n ymarferol?

Mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd yn ystod y Pumed Senedd, dywedwyd y dylai Gweinidogion ysgrifennu at y pwyllgorau polisi perthnasol i'w hysbysu am fwiad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU arfer swyddogaeth ddeddfwriaethol gydredol plws mewn perthynas â Chymru ac y dylent, pan fyddai amser yn caniatáu, roi cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn i'r Gweinidogion roi cydsyniad.

Rhan 1 – Llywodraethu Amgylcheddol

4. A allwch egluro a ydych yn bwriadu ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer system llywodraethu amgylcheddol newydd? Os felly, pa amserlen rydych chi'n gweithio tuag ati?

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio ag eraill i ddatblygu polisi ar Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol, gan ddechrau gyda'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2019 ar *Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd*.

Cafodd y Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol ei sefydlu er mwyn adeiladu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Ym mis Tachwedd 2020, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y Grŵp Gorchwyl, a oedd yn cynnwys ymgorffori pedair egwyddor amgylcheddol yr UE yng nghyfraith Cymru a sefydlu corff goruchwyllo statudol i Gymry. Rwy'n bwriadu gofyn am ragor o safbwyntiau a chyfraniadau naill ai drwy gyhoeddi Papur Gwyn neu fil drafft cyn cyflwyno Bil gerbron y Senedd.

Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, mae gennym Raglen Lywodraethu uchelgeisiol a fydd yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd mewn sawl maes. Pan fydd gennyf amserlen bendant ar gyfer deddfu, byddaf mewn sefyllfa i benderfynu pryd y bydd yr amser gorau i ymgynghori mwy.

5. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud hyd yma i ddatblygu cynigion ar gyfer targedau amgylcheddol statudol?

Rydym wedi ymrwymo i osod targedau amgylcheddol, gan gynnwys rhagor o dargedau ar ailgylchu a gwella ansawdd aer. Rydym hefyd yn pennu Cerrig Milltir Cenedlaethol er mwyn mesur y cynnydd a fydd yn cael ei wneud ar wireddu'r Nodau Llesiant. Er bod lle i dargedau o ran helpu i wireddu'n huchelgais mewn perthynas â'r amgylchedd, yr hyn sy'n bwysig yw'r camau gweithredu sylfaenol a gymerir er mwyn cyrraedd y nod.

Ynn nghyd-destun y Cerrig Milltir Cenedlaethol, rydym yn ystyried targedau hirdymor mewn meysydd amgylcheddol allweddol fel allyriadau nwyon tŷ gwyr, ôl troed ecolegol Cymru, amrywiaeth fiolegol ac effeithlonrwydd ein cartrefi o ran ynni.

Fel y nodir yn ein strategaeth ar yr Economi Gylchol, Mwy nag Ailgylchu, rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu targedau ailgylchu statudol yn unol â'r llwybr sydd gennym ar gyfer troi Cymru yn genedl ddiwastraff ac ailgylchu 100% erbyn 2050.

Rydym hefyd yn rhagweld y bydd fframwaith byd-eang ar fioamrywiaeth, ac ynddo nodau a thargedau clir ar gyfer cyfnod o ddeng mlynedd, yn cael ei gyflwyno yn COP15 y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol yn ddiweddarach eleni, ac rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i ddylanwadu ar y fframwaith hwnnw.

6. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y mater hwn [cydweithio rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd a chorff llywodraethu amgylcheddol a sefydlir ar gyfer Cymru yn y dyfodol]? Os yw'r Bil wedi cael ei ddiwygio, a allwch gadarnhau eich bod yn fodlon ei fod yn darparu'n ddigonol ar gyfer gweithio ar y cyd?

Gwnaethom lwyddo i negodi gwelliant i'r Bil er mwyn mewnosod Cymal 23(5)(b) sy'n sicrhau bod yn rhaid i strategaeth Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd nodi sut y mae'r Swyddfa honno'n bwriadu cydweithredu â'r cyrff llywodraethu amgylcheddol datganoledig.

Rwy'n fodlon y bydd y newid hwn yn sicrhau cydweithio digonol pan fydd angen hynny.

Rhan 3 – Gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau

7. Pam mae angen cyflwyno bil i wahardd plastigau untro o ystyried bod gennych y pŵer i wneud hyn eisoes?

Mae ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddeddfu er mwyn gwahardd y defnydd o eitemau plastig untro yng Nghymru. Mae'r eitemau hynny, yn aml, yn cael eu taflu fel sbwriel. Rwy'n benderfynol o wneud popeth o fewn fy ngallu i wireddu'r ymrwymiad hwn. Rydym wedi ymgynghori eisoes (mewn ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Hydref y llynedd) ar gynlluniau i wahardd neu gyfyngu ar rai o'r prif eitemau drwy gyflwyno rheoliadau i wahardd gwerthu eitemau plastig untro ym marchnad Cymru, gan ddefnyddio pwerau o dan adran 140 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ac adran 62 o Ddeddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctiynau 2008. Ers hynny, mae Senedd y DU wedi pasio Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig, sydd bellach yn gyfraith (Rhagfyr 2020) ac mae hyn wedi effeithio ar ein cynigion gwreiddiol.

Fodd bynnag, ein barn ni, fel y'i cyflwynwyd yn yr her gyfreithiol sy'n mynd rhagddi mewn perthynas â'r mater hwn, yw na all Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig fod wedi cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan ei atal rhag deddfu darpariaeth sy'n gwahardd neu'n cyfyngu ar werthu yng Nghymru.

Felly, bwriad cyflwyno Bil byr sy'n ymdrin ag un mater yn unig yw rhoi effaith lawn i'n cynigion, gan wireddu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu.

8. A allwch roi rhagor o wybodaeth am eich cynigion ar gyfer bil plastigau yn y dyfodol, a'r amserlen sydd gennych mewn golwg ar gyfer ei gyflwyno?

Rydym yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael er mwyn galluogi'r Senedd i gyflwyno'r gwaharddiadau arfaethedig. Mae Bil byr sy'n ymdrin ag un mater yn unig yn un ohonynt. Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith o dan y fframweithiau cyffredin y darperir ar eu cyfer ym Mil Marchnad Fewnol y DU. Byddaf yn gallu rhoi rhagor o sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch yr amserlen debygol cyn gynted ag y bydd rhagor o sicrwydd ynghylch y materion hyn. Gweler ateb 9 isod am ragor o fanylion.

9. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am eich trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch effaith bosibl Deddf y Farchnad Fewnol ar eich cynigion i wahardd plastigau untro?

Mae trafodaethau rhwng swyddogion yn awgrymu bod gwahaniaethau yn yr hyn y mae gweinyddiaethau gwahanol y DU yn bwriadu'i wneud mewn perthynas â chyflwyno gwaharddiadau ar eitemau plastig untro. Mae Bil Marchnad Fewnol y DU wedi arwain at oedi eisoes oherwydd bod angen ystyried effaith y Ddeddf honno ar ein cynigion. Oherwydd bod y gwahaniaethau hyn rhwng y llywodraethau yn parhau, mae'n bosibl y bydd angen inni adolygu yr hyn sydd gennym mewn golwg ar gyfer y gwaharddiadau neu mae'n bosibl y bydd y gwahaniaethau hynny'n arwain at ragor o oedi cyn iddynt gael eu cyflwyno yng Nghymru.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar weithredu'r 'fframweithiau cyffredin' y darperir ar eu cyfer o dan adran 10 o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU. Mae darpariaethau o dan adran 10 o'r Ddeddf honno sy'n caniatáu'r posibilrwydd o eithrio'r cyfyngiadau ar blastigau untro yn gyfan gwbl o gwmpas yr 'egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol'. Prif fantais hynny yw y byddai'r rheoliadau gwreiddiol a ragwelir o dan adran 140 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn cael effaith mewn perthynas â'r holl eitemau plastig untro a gaiff eu gwerthu yng Nghymru. Dyna fyddai'r sefyllfa ni waeth ym mha ran o'r DU y caent eu cynhyrchu neu eu mewnfario ac ni waeth a ellid gwerthu'r eitemau hynny yn y rhan honno o'r DU heb unrhyw waharddiadau ar eu gwerthu – gan fodloni'r uchelgais llawn o ran polisi a rhoi rhywfaint o sicrwydd i randdeiliaid.

Fodd bynnag, er mai'r nod yw cytuno erbyn mis Rhagfyr ar sut y bydd y fframweithiau'n gweithredu, mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi awgrymu na fydd cael cytundeb ar y eithriad hwnnw yn debygol o fod yn rhywbeth a fydd yn digwydd yn gyflym. Byddai'n rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Defra gytuno ar y rheoliadau 'eithrio' a fyddai'n deillio o hynny, a byddai darpariaethau ym Mil Marchnad Fewnol y DU yn caniatáu iddo orfodi'r penderfyniad hwnnw p'un a fyddai Gweinidogion Cymru yn cytuno ar y cynnwys terfynol ai peidio.

Mae posibilrwydd hefyd o weithredu ar sail consensws, lle gallem weithio gyda gweinyddiaethau Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban y tu allan i unrhyw Gytundeb Fframwaith Cyffredin. Y nod fyddai ceisio creu consensws ar yr eitemau i'w gwahardd ac ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r gwaharddiadau hynny. Byddai'n fodd i osgoi gweithredu'n groes i'r egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Byddai angen gwneud rhagor o waith manwl ar hyn oherwydd nad yw cynlluniau'r gweinyddiaethau gwahanol wedi cael eu datblygu i'r un graddau. Byddai angen cytundeb ffurfiol y Gweinidogion perthnasol ar draws y DU er mwyn gweithredu fel hyn. O weithredu fel hyn, mae'n bosibl y bydd angen adolygu ein huchelgeisiau ar blastigau untro, naill ai o ran cwmipas yr uchelgais hwnnw neu o ran yr amserlen. Mae'n werth nodi hefyd y byddai gweithredu fel hyn yn groes i'r hyn a wnaed, pan fo angen cydweithredu ar draws y DU, yng nghyd-destun polisiau eraill ar gyfer y cyfnod ar

ôl i'r DU ymadael â'r UE. Fframweithiau Cyffredin yw'r ffordd a ffafriwyd er mwyn datrys materion anodd sy'n berthnasol i bob rhan o'r DU.

Rhan 5 – Dŵr

10.A allwch egluro pwrpas y darpariaethau ar gyfer Cymru yn Rhan 5 o'r Bil, a sut a phryd rydych yn bwriadu defnyddio'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn Rhan 5?

Cafodd y diwydiant dŵr ei breifateiddio ym 1989 yn unol â Deddf Dŵr 1989. Mae'r drefn reoleiddio ar gyfer y diwydiant dŵr a breifateiddiwyd yn cael ei nodi'n bennaf yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac mewn diwygiadau a wnaed i'r Ddeddf honno (yn enwedig yn 2003 a 2014). Mae nifer o'r cymalau yn y Bil hwn yn ceisio diweddarau gofynion ac adlewyrchu arferion cyfredol e.e. darparu gwybodaeth drwy ddulliau electronig.

Cymal 78 (77 gynt)

Mae'r broses ar gyfer paratoi cynlluniau rheoli adnoddau dŵr wedi bod yn ei lle ers i'r diwydiant gael ei breifateiddio ac mae angen ei diweddarau a'i symleiddio. O ystyried y pwysau ar ein hadnoddau dŵr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, mae angen addasu er mwyn sicrhau bod y broses yn addas i'r diben a'i bod yn gallu mynd i'r afael â phwysau ar ein hadnoddau dŵr, megis y newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth, tywydd eithafol a newidiadau mewn arferion rheoli tir. Nod y cymalau hyn yw gwella'r broses cynllunio adnoddau dŵr, gan hwyluso cynllunio ar y cyd ac ystyried anghenion pawb a phopeth sy'n defnyddio dŵr, gan gynnwys yr amgylchedd. Nid oes amserlen benodol eto ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth.

Cymal 79 (78 gynt)

Mae systemau draenio a charthffosiaeth yn asedau hollbwysig sy'n cael eu hanwybyddu'n aml. Mae ymrwymiad yn y Strategaeth Ddŵr i Gymru i reoli ac i gynnal a chadw seilwaith draenio a charthffosiaeth ar gyfer dŵr gwastraff a dŵr wyneb yn dda, gan wneud hynny mewn ffordd integredig, ac i sicrhau digon o gapasiti i reoli'r galw sydd ar y seilwaith hwnnw heb achosi llygredd na llifogydd o garthffosydd yng nghartrefi pobl.

Bydd cynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth yn rhoi'r gwaith cynllunio a wneir ar ddraenio a gwastraff dŵr ar sail statudol er mwyn asesu risgiau i'r rhwydwaith ac er mwyn deall capasiti'r rhwydwaith. Ar hyn o bryd, mae cwmnïau dŵr yn gweithio ar y cynlluniau hyn ar sail anstatudol er mwyn llywio'r hyn sydd gennym mewn golwg ar gyfer y broses statudol. Bydd y cynlluniau hynny'n cael eu cyflwyno yn hydref 2022. Yna, byddwn yn ystyried cyflwyno rheoliadau a chyfarwyddydau yng ngwanwyn 2023, gan ddibynnu ar yr amserlen ddeddfwriaethol.

Cymalau 81, 82 ac 83 (79, 80 ac 81 gynt)

Mae'r cymalau hyn yn diweddarau rhai o swyddogaethau rheoleiddio Ofwat (rheoleiddiwr economaidd annibynnol Cymru a Lloegr ar gyfer y diwydiant dŵr) er mwyn adlewyrchu arferion cyfredol a ffurfioli rhai o'r arferion presennol. Mae Cymal 81 yn ffurfioli'r broses lle mae Ofwat yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr gyflwyno gwybodaeth, er mwyn iddo fonitro a chryfhau'r fframwaith rheoleiddio. Mae cymal 82 yn gymwys i gwmnïau dŵr yn Lloegr yn unig. Mae cymal 83 yn diweddarau'r gofyniad i gyflwyno dogfennau ac yn caniatáu iddynt gael eu cyflwyno drwy ddulliau electronig.

Cymal 84 – Lloegr yn unig (82 gynt)

Cymalau 85 ac 86 (83 ac 84 gynt)

Mae'r cymalau hyn yn cyflwyno mesurau i ddiogelu ansawdd dŵr mewn dŵr wyneb a dŵr daear, drwy ddarparu, yn absenoldeb y pwerau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau

Ewropeaidd 1972, ar gyfer diweddarau'r rhestrau o sylweddau â blaenoriaeth sydd, yn ôl yr wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, yn fygythiad i gyrff dŵr. Drafftwyd y cymalau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli presennol a'r modd yr arferid y pwerau yn y gorffennol. Roedd y pwerau'n cael eu harfer a'u gweithredu gynt drwy Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017. Mae pwerau Gweinidogion Cymru yn cael eu harfer ar gyfer ardaloedd basnau afonydd sy'n gyfan gwbl yng Nghymru ond mae 2 ardal basn afon (afon Dyfrdwy ac afon Hafren) lle mae pwerau'n cael eu harfer ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid oes amserlen benodol eto ar gyfer cyflwyno'r Rheoliadau hyn.

Cymalau 91-93 (89 – 91 gynt)

Mae angen pwerau mewn perthynas â draenio tir fel y bo modd diwygio a diweddarau'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo sut y mae incwm yn cael ei rannu rhwng ardollau arbennig a chyfraddau draenio.

Mae'r cymalau hyn hefyd yn darparu ar gyfer methodoleg amgen ar gyfer cyfrifo gwerth tir y codir tâl arno (tir amaethyddol ac adeiladau) er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ystumio sut y caiff y dosraniadau eu cyfrifo.

Mae ffioedd yn cael eu pennu ar gyfer pob Bwrdd Draenio a'u gweinyddu gan CNC yng Nghymru ac, felly, mae'r ffaith bod y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn rhai cydgysylltiedig yn golygu mai bwrw ymlaen â darpariaeth ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol fyddai'n fwyaf effeithiol a phriodol.

11. A allwch egluro a yw'r darpariaethau yn Rhan 5 yn rhyngweithio â'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi, ac os felly, sut?

Ni fydd y darpariaethau yn Rhan 5 yn effeithio ar y fframwaith rheoleiddio ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi, ond bydd rhai o'r darpariaethau e.e. cynlluniau rheoli draenio a charthffosiaeth o fudd i'n dyfroedd ymdrochi ac yn wir i'n hamgylchedd dŵr ehangach dros amser, oherwydd y byddant yn cyflwyno ffordd o sicrhau gwaith cynllunio hirdymor er mwyn sicrhau bod asedau draenio a charthffosiaeth yn cael eu cynnal, eu gwella neu eu newid yn ôl yr angen. Bydd hyn yn cynnwys asedau fel gorlifau carthffosydd cyfunol.

Rhan 8 – REACH

12. Pa asesiad rydych wedi'i wneud o'r risgiau posibl o ddargyfeirio rheoleiddiol o'r UE yn y maes hwn? A ydych o'r farn bod cyfundrefn REACH newydd y DU yn rhoi'r un lefel o ddiogelwch â chynllun yr UE y mae wedi'i ddisodli?

Erbyn diwedd y cyfnod gweithredu, roedd rheoliadau REACH y DU a'r UE mor gydnaws â'i gilydd â phosibl. Ers hynny, mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud o dan gyfundrefn REACH yr UE a bydd angen gwneud nifer o benderfyniadau o dan system newydd y DU. Wrth ystyried gweithredu o dan REACH y DU, gallwn fanteisio ar y syniadau gorau o'r tu mewn a'r tu allan i'r UE, a gallwn wneud penderfyniadau a fydd yn addas i'r diben yng nghyd-destun Prydain Fawr. O ganlyniad, bydd unrhyw wahaniaethau rhwng yr EU a'r DU yn cael eu hystyried fesul achos wrth i benderfyniadau gael eu gwneud.

Mae egwyddorion sylfaenol REACH wedi cael eu hymgorffori yng nghyfraith yr UE a ddargadwyd, a byddant yn parhau i gael eu diogelu rhag cael eu diwygio, gan ddefnyddio'r pwerau ym Mil yr Amgylchedd. Nid oes dim i atal cyfundrefn newydd y DU rhag rhoi'r un lefel o ddiogelwch â chfundrefn yr UE.

13. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pryd y bydd Fframwaith Cyffredin terfynol ar gemegau a phlaladdwyr ar gael?

Ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben, cytunodd pedair llywodraeth y DU ar fframweithiau dros dro, gan gynnwys yr un sy'n ymdrin â chemegion a phlalladdwyr. Mae gwaith yn mynd rhagddo bellach i ddatblygu'r rhain yn fframweithiau terfynol ac mae'r pedair llywodraeth yn ceisio cwblhau'r gwaith hwnnw erbyn diwedd 2021. Yn ystod y cam hwn o'r gwaith, mae disgwyl i ddeddfwrfeydd o bob rhan o'r DU gael cyfle i graffu ar y fframweithiau. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng y pedair llywodraeth a'u priod ddeddfwrfeydd ynghylch pryd y mae'r gwaith hwnnw'n debygol o ddechrau.

Goblygiadau Ariannol

14. Pa waith rydych wedi'i wneud i asesu'r costau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu'r darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil?

Gwastraff ac Effeithlonrwydd o ran Adnoddau: Bydd y rhaglenni ar y cyd i ddatblygu'r Cynllun Dychwelyd Ernes a Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol a fydd yn nodi'r costau a fydd yn gysylltiedig â gweithredu a rhedeg y cynlluniau hynny. Bydd yr asesiad hwnnw'n cael ei fireinio wrth i'r opsiynau a ffefrir ddod i'r amlwg ac wrth i fanylion y ddau gynllun gael eu paratoi.

Yn gyffredinol, dylai Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes fod yn niwtral o ran cost i'r pwrs cyhoeddus oherwydd y bydd y cynlluniau'n ceisio adennill eu costau drwy'r ffioedd a'r taliadau a fydd yn daladwy gan y diwydiant. Bydd y costau hynny'n cynnwys y costau a fydd yn gysylltiedig â thalu am oruchwyliaeth reoleiddiol er mwyn monitro cydymffurfiaeth a chymryd camau gorfodi. Rydym yn cydnabod, serch hynny, fod costau cychwynnol yn gysylltiedig â'r ddau gynllun, ac er mwyn helpu gyda'r costau hynny, dyrannodd Trysorlys EM £700,000 yn ei chyllideb ar 11 Mawrth 2020 ar gyfer gwaith TGCh cychwynnol ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr a'r Cynllun Dychwelyd Ernes

Olrhain gwastraff yn electronig – Cafodd y gwaith datblygu polisi ei oruchwylio gan Fwrdd Rheoli Prosiect mewnol ag aelodaeth graidd o swyddogion o bob un o'r pedair gweinyddiaeth.

Yng nghyllideb mis Mawrth 2020, ymrwymodd Trysorlys EM gyllid tan flwyddyn ariannol 23/24 ar gyfer datblygu gwasanaeth olrhain gwastraff ledled y DU. Yn unol â'r egwyddor "y llygrwr sy'n talu", unwaith y bydd y Gwasanaeth Olrhain Gwastraff electronig gorfodol yn weithredol, y bwriad yw mai defnyddwyr y gwasanaeth fydd yn talu costau gweithredu a chynnal y gwasanaeth a'r gwaith rheoleiddio cysylltiedig.

Yn 2020, o dan gronfa Her Catalydd GovTech^[1], aed ati ar y cyd â dau gyflenwr technoleg i ddatblygu prototeipiau o wasanaeth olrhain gwastraff electronig. Gosododd y gwaith hwnnw'r sylfeini ar gyfer datblygu'r gwasanaeth byw. Mae'r gwaith o ddatblygu'r system TG yn cael ei gefnogi gan banel defnyddwyr o ryw 1200 o aelodau sy'n cynrychioli cynhyrchwyr gwastraff, cludwyr, broceriaid, gwerthwyr, gweithredwyr safleoedd gwastraff, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr o bob rhan o'r DU. Mae aelodau'r panel hwn yn helpu i ddatblygu'r gwasanaeth drwy gymryd rhan mewn ymchwil defnyddwyr a phrofi'r system wrth iddi gael ei datblygu.

Yn y man, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad ledled y DU ar gyflwyno system orfodol i olrhain gwastraff yn electronig, a bydd yr ymgynghoriad hwnnw'n

^[1] Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig - Waste management: smart tracking of waste (GovTech Catalyst) (2019): <https://www.gov.uk/government/collections/waste-management-smart-tracking-of-waste-govtech-catalyst>

cynnwys asesiad effaith. Un o'r meysydd y bwriedir ymdrin ag ef fydd codi ffioedd a thaliadau er mwyn adennill y costau a fydd yn gysylltiedig â'r system h.y. costau sefydlu, gweithredu neu gynnal elfen TG y gwasanaeth olrhain gwastraff. Bydd CNC yn ailedrych ar y cynlluniau codi tâl sydd ganddo ar hyn o bryd ac yn mynd ati i ddatblygu cynigion ar gyfer fframweithiau codi tâl newydd, gan roi ystyriaeth i'r ffaith bod system tracio gwastraff electronig yn cael ei chyflwyno a hefyd y swyddogaethau newydd a fydd yn cael eu rhoi iddo. Bydd CNC yn ymgynghori ar y cynigion hynny maes o law.

Taliadau am eitemau plastig untro: Cafodd astudiaeth ei chynnal gan WRAP (Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) i edrych yn benodol ar daliadau am gwpanau plastig untro a chwpanau ffeibr untro, sydd â leinin plastig. Edrychodd yr astudiaeth ar faint o gwpanau untro ac ar bwysau'r cwpanau untro a gafodd eu rhoi ar y farchnad yn y DU yn ystod 2019. Rhoddwyd amcangyfrifon hefyd o faint a gafodd eu rhoi ar y farchnad ym mhob un o'r gwledydd datganoledig. Roedd Cymru yn cyfrif am ryw 4% o'r 1.0 biliwn o unedau (+/- 9%) yr amcangyfrifir iddynt gael eu rhoi ar farchnad y DU, ac amcangyfrifwyd bod yr unedau hynny'n werth rhyw £43 miliwn. (Roedd y nifer hwnnw'n cynnwys mathau eraill o ddeunydd pacio ffeibr untro, megis y deunydd pacio a ddefnyddir ar gyfer brechdanau).

Cafodd yr elfen daliadau ei modelu, ar y sail y byddai tâl o 25 ceiniog am bob eitem untro ac y byddai'n cael ei weithredu drwy ddulliau rheoleiddiol tebyg i'r tâl am fagiau Siopa Untro. Ni fyddai'r tâl hwnnw'n cael ei ad-dalu. Byddai'r taliadau'n cael eu cadw gan y 'gwerthwyr' ac mae'n bosibl y byddent yn helpu i ariannu unrhyw gostau ychwanegol a fyddai'n gysylltiedig â chasglu a rheoli'r eitemau hyn. Byddai'r tâl yn golygu y byddai 'gwerthwyr' ar eu hennill a'r defnyddwyr ar eu colled.

Amcangyfrif o'r effaith

- Byddai'r tâl yn arwain at ostyngiad o 2.2 biliwn yn nifer y cwpanau ffeibr untro a fydd yn cael eu rhoi ar y farchnad ac at ostyngiad o 725 miliwn yn nifer y cwpanau plastig rhwng 2022 a 2034.
- Byddai gostyngiad o £42 miliwn o ran gwerth y cwpanau ffeibr untro a fydd yn cael eu gwerthu ar y farchnad, a gostyngiad o £7miliwn yn achos cwpanau plastig untro.
- Byddai cwpanau y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu defnyddio yn lle'r eitemau hyn. Byddai 5.9 miliwn yn fwy o gwpanau y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu rhoi ar y farchnad yn lle cwpanau ffeibr untro a 2 filiwn yn fwy o gwpanau y gellir eu hailddefnyddio yn lle cwpanau plastig untro.
- Oherwydd y byddai llai o gwpanau ffeibr untro a llai o gwpanau plastig untro ar y farchnad, byddai llai o sbwriel, llai o gostau gwaredu a chasglu, a byddai gostyngiad hefyd yn y costau sy'n gysylltiedig â rheoli gwastraff.

Cafodd nifer o senarios posibl eraill ar gyfer codi tâl eu modelu, gan gynnwys taliadau â thargedau ar gyfer cyfraddau ailgylchu, ynghyd ag opsiynau'n gysylltiedig â Chyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ac amryfal gynlluniau cymryd yn ôl. Dylid nodi mai un o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad oedd bod bwloch yn y data am effaith amgylcheddol pob un o'r ffyrdd amgen o godi tâl a gafodd eu modelu. Byddai angen gwneud rhagor o waith i ganfod ai model codi tâl yw'r ffordd orau o sicrhau'r budd amgylcheddol.

Byddai angen gwneud gwaith tebyg ar daliadau am eitemau plastig untro eraill.

Ansawdd Aer: O ran cymal 72 ac Atodlen 11 (ar y Strategaeth Genedlaethol ar Ansawdd Aer), nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru. Mewn perthynas â chymal 73 ac Atodlen 12 (sy'n ymwneud â'r gyfundrefn rheoli mwg yng Nghymru), mae asesiad rhagarweiniol yn amcangyfrif y bydd y costau'n fach iawn ac mai'r unig gostau rheolaidd fydd costau cyfieithu.

Draenio Tir: Mae'r diwygiadau i gyfraddau draenio tir ac ardollau yn cryfhau sefyllfa Llywodraeth Cymru a CNC sy'n gweinyddu Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru, gan ddarparu ffordd o bennu'r ardollau a'r cyfraddau draenio cywir.

Dŵr: Ac eithrio'r Cynlluniau Statudol ar Ddraenio a Rheoli Gwastraff Dŵr, ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol gan fod cwmnïau dŵr eisoes yn paratoi cynlluniau statudol ar reoli adnoddau dŵr a chynlluniau statudol ar sychder.

Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r cwmnïau dŵr lunio cynlluniau rheoli adnoddau dŵr ar y cyd ond, ar hyn o bryd, nid oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer hwnnw. Os daw'n amlwg bod angen gwneud hynny, byddem yn mynd ati ar y cyd â'r cwmnïau dŵr a'r rheoleiddwyr i ystyried unrhyw oblygiadau o ran adnoddau.

Mae'r cwmnïau dŵr yng Nghymru wedi ymrwymo eisoes i baratoi cynlluniau draenio a rheoli gwastraff dŵr ar sail anstatudol erbyn 2022. Mae Ofwat yn mynd ati bob 5 mlynedd i adolygu prisiau, a bydd costau'r cynlluniau hynny yn cael eu talu o dan y drefn honno. Efallai y bydd rhai costau ychwanegol i CNC a'r awdurdodau lleol ond byddai'r costau hynny'n dibynnu ar faint o ran a fyddai ganddynt yn y gwaith o reoleiddio a gwerthuso'r cynlluniau, ond nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i wneud eto. Bydd hwnnw'n fater y bydd angen ymgynghori yn ei gylch a'i drafod yn fanylach ar sail asesiad effaith rheoleiddiol.

REACH: Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r pwerau a roddir i Weinidogion gan y darpariaethau sy'n ymdrin â chemegion, gan nad oes yn rhaid i Weinidogion eu harfer. Nid yw'r darpariaethau'n creu rhwymedigaethau newydd ond maent yn rhoi pwerau i ddiwygio'r rheoliadau REACH presennol. Pan fydd Gweinidogion yn penderfynu arfer y pwerau hyn, byddai'r goblygiadau ariannol yn cael eu hasesu ar y pryd. Gallai hynny arwain at gostau neu arbedion ariannol.

Yr wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth y DU

Rwy'n falch o gael hysbysu'r Pwyllgor y cytunwyd ar fy nghais i drefnu trydydd darlleniad er mwyn rhoi mwy o amser i Bwyllgor y Senedd graffu ar y Memorandwm Cydsyniad.

Mae'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes i gynnig dyddiad newydd ar gyfer y Ddadl Cydsyniad Deddfwriaethol ar 28 Medi. Cafodd dyddiad cau newydd, 23 Medi, ei gynnig hefyd ar gyfer cyflwyno adroddiadau.

Canllawiau ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol

1. Pwerau cydredol

Pŵer cydredol yw pŵer y gellir ei weithredu:

- (a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu
- (b) gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru (er enghraifft, pan fo Gweinidogion y DU yn gweithredu pwerau mewn perthynas â'r DU gyfan; neu mewn perthynas â Chymru a Lloegr).

Ni ddylai Gweinidogion y DU weithredu eu pwerau mewn perthynas â Chymru heb gytundeb Gweinidogion Cymru fel arfer, ond (oni bai ei fod yn bŵer cydredol plws – gweler isod) nid oes gofyniad cyfreithiol iddynt gael cydsyniad er mwyn deddfu.

2. Pwerau "cydredol plws"

Pŵer "cydredol plws" yw math arbennig o bŵer cydredol y gellir ei weithredu:

- (a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu
- (b) **yn amodol ar** gydsyniad Gweinidogion Cymru, gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried p'un ai i roi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu pŵer cydredol plws, maent yn gweithredu swyddogaeth statudol. Os nad ydynt yn rhoi cydsyniad, ni all Gweinidogion y DU weithredu y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru. Enghraifft o bŵer "cydredol plws" yw:

[Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid \(Diwygio etc.\) \(Ymadael â'r UE\) 2019](#)

Mae Rheoliad (CE) Rhif 999/2001, sy'n amlinellu'r rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy penodol, yn darparu y bydd yn rhaid i bob aelod-wladwriaeth lunio rhestr o sefydliadau, safleoedd gwaith a gweithredwyr sydd wedi'u cymeradwyo neu eu cofrestru yn unol â'r rheoliad hwn o fewn ei thiriogaeth. Gan y bydd y cyfeiriad hwn yng nghyfraith yr UE a ddargedwir yn ddiffygiol ar ôl ymadael, mae Rheoliad 2(22) o Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 yn darparu y bydd yn cael ei weithredu gan yr awdurdod priodol o fewn ei genedl gyfansoddol. Mae'r awdurdod priodol yn cynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Lloegr a gweinyddiaethau datganoledig Cymru a'r Alban, a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n darparu ymhellach y gall yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd fod yr awdurdod priodol ar gyfer Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon gyda chydsyniad y weinyddiaeth ddatganoledig berthnasol neu'r adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

Mae hyn yn gydedol plws gan fod y pŵer parhaol yn cael ei drosglwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru, a'r unig ffordd y gellir dod yn weithredol gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru yw os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad statudol i Weinidogion y DU wneud hynny. Y pŵer cydsyniad statudol hwn sydd gan Weinidogion Cymru yw'r elfen "plws" o bŵer "cydedol plws".

Rydym yn defnyddio'r term "pwerau cydedol" yn y canllawiau hyn i gwmpasu pwerau cydedol a chydedol plws, oni bai ein bod yn dweud fel arall.

3. Swyddogaethau cydedol a grëwyd gan offerynnau statudol Brexit y DU a Biliau Brexit y DU

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd yn gofyn am gydsyniad Gweinidog y Goron ar gyfer deddfwriaeth y Senedd sy'n addasu neu'n dileu pwerau cydedol.

Gwnaeth Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021, a wnaed o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, a elwir yn gyffredin yn "Orchymyn adran 109", ddileu'r gofyniad hwn mewn perthynas â dileu pwerau cydedol a grëwyd mewn deddfiadau penodol Brexit yn unig.

4. Gweithredu swyddogaethau cydedol

Mae Gweinidogion wedi cytuno ar yr egwyddorion canlynol ar gyfer gweithredu swyddogaethau cydedol.

Egwyddor 1: Mae'n rhaid meddu ar drefniadau llywodraethu cadarn - h.y. prosesau wedi'u diffinio'n glir sy'n cwmpasu trafodaethau polisi manwl ar lefel swyddogol yr holl ffordd drwyddo i drosolwg gan fforymau Gweinidogol - i alluogi cytundeb rhynglywodraethol ynglŷn â gweithredu swyddogaethau.

Mae gwaith ar gychwyn i fapio peirianwaith rhynglywodraethol ac asesu ei gadernid gyda golwg ar gytuno set gyson o egwyddorion y gellir eu cymhwyso ar draws cydberthnasau, fframweithiau a thrafodaethau rhynglywodraethol.

Egwyddor 2: Os ydym yn argymhell cydsyniad er hwylustod yn absenoldeb trefniadau llywodraethu llawn ddatblygedig, neu os nad ydym yn sicr ynglŷn â sut bydd y swyddogaethau yn cael eu gweithredu ar yr adeg pan geisir am gydsyniad, dylem sicrhau bod ein cydsyniad wedi'i ddiffinio mor gul â phosibl o ran:

- pa weithrediad yn union o ba swyddogaethau rydym yn caniatáu;
- hyd y cyfnod yr ydym yn rhoi'r cydsyniad ar ei gyfer – cyfnod byr yn ddelfrydol, gyda mecanwaith adolygu diffiniedig, a heb fod yn niweidiol i drefniadau tymor hwy;
- y gofynion lleiaf ar gyfer ymgysylltu rhynglywodraethol parhaus.

Egwyddor 3: Mae'n rhaid i swyddogion allu darparu sicrwydd i Weinidogion eu bod wedi gwneud y canlynol:

- ystyried yn ofalus y sail resymegol ar gyfer polisi dros y tymor hwy a'r egwyddor gyfansoddiadol ehangach fod Gweinidogion Cymru yn gweithredu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, gyda'r disgwyliad y bydd problemau o ran capasiti ond yn berthnasol yn y tymor byr;
- gwerthuso'r opsiwn Cymru yn unig ac wedi dod i'r casgliad ei fod yn annymunol yn yr achos hwn;
- ystyried p'un a yw'r trefniadau llywodraethu'n ddigon cadarn i warchod buddiannau Cymru neu beidio;
- dylunio'r termau a phroses orau posibl ar gyfer rhoi cydsyniad sy'n diogelu ein sefyllfa yn y tymor hwy (gyda chwmpas a hyd wedi'u diffinio'n glir yn ogystal â chyfranogiad llawn ym mhob rhan o ddatblygu a gweithredu polisi); a
- mabwysiadu dull cyson wrth wneud penderfyniadau, fel bod Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn gweithredu'n gydlynol – ar lefel portffolio ac yn ehangach.

Egwyddor 4: Dylid cyflwyno penderfyniad ar p'un a ddylid rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU weithredu swyddogaeth gydredol mewn perthynas â Chymru am y tro cyntaf i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y portffolio ar y cam cynharaf posibl yn y broses.

Egwyddor 5: Dylai Gweinidogion ysgrifennu at y pwyllgorau polisi perthnasol i'w hysbysu o fwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU weithredu swyddogaeth deddfwriaethol gydredol plws mewn perthynas â Chymru, ac os oes digon o amser, darparu cyfle i'r Senedd fynegi barn cyn bod Gweinidogion yn rhoi cydsyniad.

Egwyddor 6: Mae'r un egwyddorion ynghylch gweithio rhynglywodraethol, cytundeb Gweinidogol a hysbysu'r Senedd yn berthnasol i roi a thynnu cydsyniad i weithredu swyddogaeth gydredol.

5. Dileu swyddogaethau cydredol

Egwyddor 7: Dylid dileu swyddogaethau cydredol ar y cyfle cyntaf.

Mae dileu swyddogaethau cydredol trwy ddarpariaethau mewn Deddf Seneddol yn ysgogi'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Cymru i gael cydsyniad Gweinidog y Goron. Mae'n bwysig, o ystyried eu goblygiadau cyfansoddiadol (h.y. eu bod yn cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol), fod cyfleoedd i ddileu swyddogaethau yn cael eu cymryd cyn gynted â phosibl.

6. Cynigion ar gyfer pwerau cydredol newydd

Egwyddor 8: Dylid ond creu swyddogaethau cydredol newydd mewn amgylchiadau eithriadol iawn a dylai timau sicrhau y bydd eithriad mesurau yn berthnasol fel na fydd angen cydsyniad wrth eu dileu (i warchod

cymhwysedd deddfwriaethol), a'u bod yn gydedol plws (i warchod cymhwysedd gweithredol).

O ystyried bod creu pwerau cydedol yn cyfyngu'r Senedd wrth weithredu ei chymhwysedd deddfwriaethol, a bod Deddf Llywodraeth Cymru wedi'i llunio ar y sail y bydd nifer y pwerau cydedol yn lleihau, yn hytrach na chynyddu, dylem osgoi ceisio neu gytuno ar bwerau cydedol newydd pan fo hynny'n bosibl. Dylid ceisio datrysiadau amgen fel cymryd y pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru yn unig, gweithredu cytundebau rhynglywodraethol drwy reoliadau ar wahân, neu offerynnau cyfansawdd.

Pan gynigir pŵer cydedol newydd, bydd angen sicrwydd ar Weinidogion (gan gynnwys y Cwnsler Cyffredinol, **y mae'n rhaid i bob Cyngor Gweinidogol sy'n cynnig pŵer newydd o'r math hwn wneud hyn drwyddo**) fod sail resymegol glir a chryf iawn dros ofyn i'r pŵer gael ei greu yn y ffordd hon. Dylai swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd fodloni eu hunain y bydd eithriad mesurau yn berthnasol i'r pŵer sy'n cael ei greu, er mwyn sicrhau na fyddai dileu'r pŵer, mewn Deddf Seneddol, yn ysgogi unrhyw ofyniad cydsynio.